TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# NPTC Certificate Pesticides Spraying Into Water - Unit PA6W Level 2



**Yn gryno**

Mae sawl gwahanol gategori cyffredinol mewn hyfforddiant plaladdwr. Unwaith bydd gennych dystysgrif damcaniaeth PA1, gallwch yna ymgymryd ag unrhyw fodiwl arall, gan sicrhau eich bod yn gyfreithiol a diogel wrth ddefnyddio cemegion.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r gyfraith yn nodi bod rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio neu'n taenu plaladdwyr mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth, gweithleoedd diwydiant neu amwynderau, gael Tystysgrif Plaladdwr ddilys er mwyn cydymffurfio â rheoliadau. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn opsiynol ac mae'n berthnasol i wirfoddolwyr, yn ogystal â staff cyflogedig a hunangyflogedig.

Byddwch yn ennill y wybodaeth hanfodol i daenu plaladdwyr â chwistrellydd cefn yn gywir ger dwr, gan ddefnyddio ffroenell hydrolig neu chwistrellwyr o fath cylchol atomeiddiwr. Byddwn yn mynd i'r afael â:

Gosod a gwirio cyfarpar

Mesur ardaloedd
Graddnodi cyfarpar
Cymysgu a mesur cemegion
Glanhau a storio cyfarpar

Byddwch yn dysgu drwy gyfuniad o waith damcaniaethol ac ymarferol.

**Gofynion Mynediad**

Wedi cyflawni'r Cymhwysiad Plaladdwr (PA1 a PA6).

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cwrs un diwrnod ydy hwn - hanner diwrnod o hyfforddiant a hanner diwrnod o asesu.